**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 13-01(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 18 Gorffennaf 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.10pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

Swyddogion

| | |
|---|---|
| Huw Brodie (eitemau 2,3 a 4) | Pennaeth yr Adran Amaethyddiaeth |
| Gareth Jones (eitem 2) | Pennaeth Gweithrediadau Clwy’r Traed a’r Genau |
| Tony Edwards (eitem 2) | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Caroline Turner (eitem 2) | Yr Is-adran Polisi Gwledig |
| Rosemary Thomas (eitem 3) | Yr Is-adran Polisi Amaethyddol |
| Mike Dunn (eitem 4) | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |

Ysgrifenyddiaeth

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

### Eitem 1: Ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant

1.1 Talodd y Cadeirydd deyrnged i Val Feld. Cafodd ei marwolaeth ei gyhoeddi’n fuan cyn y cyfarfod. Yng ngoleuni hynny, credai na ddylid trafod rhai o eitemau’r agenda yn llawn. Roedd yn gwybod fod rhai o aelodau’r pwyllgor am gynnal cyfarfod ychwanegol yn ystod wythnosau‘r haf, ac awgrymodd y gellid gohirio unrhyw drafodaeth bellach angenrheidiol nes y cyfarfod hwnnw.

1.2 Dywedodd y Gweinidog y byddai'r Bartneriaeth Wledig yn cyfarfod ar 24 Gorffennaf er mwyn ystyried y cynllun adferiad gwledig. Byddai datganiad ynghylch ariannu'r cynllun a'r ffordd y câi ei roi ar waith yn cael ei wneud erbyn dydd Gwener 27 Gorffennaf. Roedd y Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi cydweithio'n agos â'r Pwyllgor wrth lunio'r pecyn a dylid eu gwahodd i unrhyw gyfarfod ychwanegol. Ychwanegodd y byddai'r cynigion i wahardd symudiadau am 20 diwrnod yn awr yn cael eu hystyried fel rhan o'r dull ehangach o reoli'r clwy. Nid oedd cymaint o frys, felly, i'r pwyllgor ystyried y gwaharddiad.

1.3 Wrth ymateb i gais ffurfiol am gyfarfod ychwanegol, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ymgynghori â'r Llywydd gyda'r bwriad o gynnal y cyfarfod yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 30 Gorffennaf. Y cynllun adferiad gwledig fyddai'r prif fater i'w drafod.

1.4 Dywedodd y Cadeirydd ei fod am ddatgan budd fel partner mewn busnes ffermio. Dywedodd Peter Rogers ei fod yn ffermwr a Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog** – ARD 13-01(p1)

2.1 Dywedodd y Gweinidog bod dau achos newydd o glwy'r traed a'r genau yng Nghrucywel a oedd yn gysylltiedig ag achosion blaenorol. Y diwrnod cynt, bu mewn cyfarfod â Gweinidogion amaeth eraill y DU yn Llundain. Ymhlith y materion a drafodwyd yr oedd:

- manylion ynghylch sut y gellid caniatáu i anifeiliaid gael eu symud yn ystod yr hydref tra'n sicrhau bod y perygl mor isel â phosibl;
- y posibilrwydd o gynnal marchnadoedd da byw mewn ardaloedd a oedd wedi bod yn rhydd o'r clwy am dri mis a lle yr oedd profion wedi'u cwblhau;
- llacio'r rheolau ar symud anifeiliaid y tu allan i ardaloedd heintiedig;
- hyrwyddo'r farchnad wyn mewn archfarchnadoedd;
- defnyddio cynlluniau storio preifat a mesurau eraill er mwyn ymdrin â'r wyn a fydd dros ben yn yr hydref.

2.2 Dywedodd y Gweinidog bod grant o £325,000 wedi ei roi i'r Strategaeth Ddefaid Gymreig ar gyfer gwasanaeth genoteipio er mwyn cynyddu canran y diadellau sydd wedi'u diogelu yn erbyn yr ysfa, gyda'r bwriad o ddileu'r clefyd yng Nghymru yn y tymor hwy. Câi'r arian ei roi yn ychwanegol at y cyllid ar gyfer Cynllun Cenedlaethol yr Ysfa ledled y DU a fyddai'n cael ei lansio'r diwrnod canlynol.

2.3 Mynegwyd pryderon ynghylch taliadau nad oedd wedi'u gwneud ar gyfer da byw a gafodd eu difa fel rhan o'r cynllun difa am resymau lles. Dywedodd y Gweinidog mai'r Bwrdd Ymyrraeth oedd yn gyfrifol am y cynllun, ond os gellid darparu manylion, byddai swyddogion yn ymchwilio i'r mater.

2.4 Dywedwyd wrth y Gweinidog y byddai'n rhaid cyhoeddi cynlluniau i fynd i'r afael â gwartheg dros dri deg mis ac wyn ysgafn cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi hwb i hyder y diwydiant. Roedd angen

casglu data ynghylch nifer y gwartheg dros dri deg mis, yr wyn a'r mamogiaid i'w difa er mwyn gweld maint y broblem a chynllunio'n briodol ar ei chyfer. Dywedodd y Gweinidog bod y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol (ADAS) yn cynnal arolwg i gasglu gwybodaeth. Roedd cynllun storio preifat a chynllun gwaredu am resymau lles yn cael eu hystyried a gobeithiai y gellid gwneud cyhoeddiad yn ystod wythnos gyntaf mis Awst. Nododd y pwyllgor bod gwybodaeth gynhwysfawr ynghylch gwartheg dros dri deg mis ar gael trwy Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain.

2.5 Croesawyd yr addewid o gyhoeddiad ynghylch ymdrin ag wyn ysgafn. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn gobeithio gwneud cyhoeddiad yn ystod wythnos gyntaf mis Awst.

2.6 Holwyd y Gweinidog a oedd safleoedd claddu gwastraff yn dal i gael eu defnyddio ar gyfer gwaredu cyrff anifeiliaid wedi'u difa. Dywedodd y Gweinidog bod pob anifail a gâi ei ddifa yn unol â'r mesurau i reoli'r clwy bellach yn cael ei rendro, ond bod y rheiny a gâi eu difa fel rhan o'r cynllun lles (gwaredu) yn dal i gael eu gwaredu ar safleoedd claddu gwastraff, dros 90% yn Lloegr. Roedd hi'n dal yn bosibl y câi'r wyn a fyddai dros ben yn yr hydref eu gwaredu ar safleoedd gwastraff, er bod dulliau eraill yn parhau'n amgenach.

2.7 Mynegwyd pryderon y byddai oedi cyn talu cymorthdaliadau, o dan drefniadau *force majeur* , i ffermwyr y cafodd eu da byw eu difa yn unol â mesurau rheoli'r clwy. Dywedodd y Gweinidog bod oedi'n debygol ond na fyddai'r rheiny y cafodd eu hanifeiliaid eu difa dan anfantais. Roedd rheoliadau Ewropeaidd newydd yn cael eu llunio cyn gynted â phosibl er mwyn caniatáu i'r taliadau hynny gael eu gwneud.

2.8 Codwyd mater cost cynnal archwiliadau milfeddygol i gael trwydded i symud anifeiliaid. Y ffermwyr eu hunain sy'n gorfod talu am hyn ac mae'r gost yn faich sylweddol pan fo gofyn symud un anifail, er enghraifft tarw stoc. Galwyd ar i'r llywodraeth dalu'r costau hynny. Nododd y pwyllgor bod y mater wedi'i godi gyda'r Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).

2.9 Trafodwyd mater cymryd samplau gwaed. Cytunodd Tony Edwards i ddarparu papur yn esbonio'r protocol ar gyfer cymryd samplau gwaed mewn ardaloedd heintiedig ond dywedodd nad oedd y trefniadau ar gyfer cymryd samplau yn yr ardal rhwng 3 a 7 cilomedr i ffwrdd o le heintiedig wedi'u cwblhau hyd yma.

2.10 Holwyd y Gweinidog ynghylch sut y gellid llwyddo i ailagor marchnadoedd da byw mewn ardaloedd glân. Dywedodd y Gweinidog mai dim ond anifeiliaid o'r ardal lân honno y gellid eu gwerthu yn y farchnad ac y byddai angen i'r ardal honno fod yn sylweddol er mwyn i'r farchnad fod yn hyfyw. Yn Ewrop, roedd y posibilrwydd o ddefnyddio tagiau i adnabod defaid yn cael ei drafod.

2.11 Mynegwyd siom nad oedd unrhyw un o'r grwpiau Leader a ddewiswyd ar gyfer LEADER+ yn cynrychioli'r ardaloedd Cymraeg eu hiaith yng Ngheredigion ac yng Ngwynedd, yn enwedig gan mai'r cymunedau Cymraeg oedd un o'r grwpiau targed. Holwyd y Gweinidog ynghylch pa arian a oedd ar gael i'r grwpiau na chawsant eu dewis. Dywedodd y Gweinidog bod y grwpiau wedi'u dewis yn unol â

meini prawf a bennwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Roedd swyddogion wedi cwrdd ag ymgeiswyr aflwyddiannus er mwyn trafod ffynonellau ariannu eraill.

2.12 Mae DEFRA wrthi'n paratoi astudiaeth o'r ffordd ymlaen i'r byd amaeth a holwyd y Gweinidog ynghylch ei goblygiadau i Gymru. Dywedodd mai dim ond i Loegr y byddai'r astudiaeth, a fyddai'n cael ei chwblhau yn yr hydref, yn berthnasol. Byddai gwaith y Grwp Dyfodol Ffermio yn sail i ddyfodol y byd amaeth yng Nghymru ac roedd eisoes ar y blaen i astudiaeth DEFRA. Roedd argyfwng clwy'r traed a'r genau wedi llesteirio'r gwaith o ddatblygu diwydiant amaeth mwy cynaliadwy, ond roedd y neges ar gyfer y dyfodol yn gadarnhaol.

2.13 Codwyd mater y Gronfa Caledi Gwledig. Holwyd y Gweinidog ynghylch a oedd rhagor o arian ar gael ar gyfer cyllid cyfatebol ac a oedd cydlynydd straen gwledig wedi'i benodi ar gyfer Cymru. Dywedodd y Gweinidog nad oedd cydlynydd wedi'i benodi a bod mater y cyllid yn cael ei ystyried fel rhan o'r pecyn adferiad gwledig.

*Pwyntiau Gweithredu*

2.14 Eglurhad manwl i'w ddarparu o'r protocol ar gyfer cynnal profion gwaed mewn ardaloedd heintiedig. (Ceir copi o'r nodyn yn atodiad 1) – **Tony Edwards**

**Eitem 3: Grwp Dyfodol Ffermio** - ARD 13-01 (p2)

3.1 Gwahoddodd y Gweinidog y pwyllgor i roi sylwadau ar adroddiad drafft Grwp Dyfodol Ffermio a gyhoeddwyd fel dogfen ymgynghori. Cafodd sylwadau ar yr adroddiad eu gwahodd erbyn 7 Medi. Byddai'r Grwp yn ei adolygu yng ngoleuni'r sylwadau y byddent yn eu derbyn.

3.2 Holwyd y Gweinidog ynghylch statws yr argymhellion yn y ddogfen ac a oedd y Grwp yn eu cefnogi'n unfrydol. Dywedodd mai mater i'r Grwp fyddai ystyried a fyddai angen adolygu'r argymhellion yng ngoleuni'r sylwadau a gâi eu derbyn. Roedd holl aelodau'r Grwp wedi cefnogi'r adroddiad drafft.

3.3 Croesawyd yr adroddiad fel dogfen realistig a oedd yn cynnig gobaith i'r diwydiant ac yn cynnwys nifer o syniadau da. Nid oedd, fodd bynnag, yn cynnwys unrhyw gynigion i wneud taliadau gostwng stoc, er enghraifft, trwy gynllun Tir Gofal. Dywedodd y Gweinidog nad oedd y mater wedi codi yn ystod trafodaethau'r Grwp.

3.4 Holwyd y Gweinidog ynghylch a oedd cynrychiolwyr o'r archfarchnadoedd ar y Grwp. Nid oedd cynrychiolwyr uniongyrchol ar y Grwp, ond roedd cynrychiolwyr o gyrff a oedd yn cysylltu'n rheolaidd â hwy. Roedd llawer o waith wedi'i wneud o ran hyrwyddo cynnyrch Cymreig mewn archfarchnadoedd ond roedd bob amser yn bosibl gwneud mwy.

3.5 Dywedwyd y byddai'n well difa'r wyn a fyddai dros ben yn ystod yr hydref yn hytrach na llesteirio'r

broblem trwy ddefnyddio storau preifat. Dywedodd y Gweinidog y byddai wyn a gâi eu storio'n cael eu rhyddhau yn y flwyddyn newydd i gymryd lle'r cyflenwad o Seland Newydd a fyddai'n cael ei ddenu i'r farchnad Ewropeaidd gan y prisiau uwch sydd ar gael yno.

3.6 Holwyd y Gweinidog ynghylch i ba raddau yr oedd y Grwp wedi ystyried syniadau hollol newydd yn ystod y trafodaethau. Nododd y Pwyllgor mai'r hyn a wnaeth y Grwp oedd dadansoddi problemau'r diwydiant, nodi'r amcanion a llunio cynllun yn seiliedig arnynt.

3.7 Dywedodd y Cadeirydd y câi'r adroddiad ei ystyried ymhellach yn y cyfarfod ychwanegol.

**Eitem 4: Cyllideb** – ARD 13-01 (p3)

4.1 Dywedodd y Cadeirydd bod cais am ragor o wybodaeth wedi'i wneud yn y cyfarfod blaenorol a bod y wybodaeth honno bellach wedi'i rhoi. Roedd angen i'r pwyllgor yn awr gytuno ar eiriad llythyr at y Gweinidog yn rhoi manylion blaenoriaethau ei gyllideb.

4.2 Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro sut yr oedd dros £9 miliwn o gyllideb 2000-01 heb ei wario ac a ellid defnyddio'r arian hwnnw yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Nododd y pwyllgor bod y ffigwr o £9 miliwn yn gamarweiniol. Roedd tua £4.5 miliwn o'r tanwariant yn deillio o bwynt technegol o ran cyfrifo cyllideb cynllun Tir Mynydd. Roedd y gweddill yn deillio o lithriant a achoswyd yn bennaf gan argyfwng clwy'r traed a'r genau. Cytunwyd y câi eglurhad ysgrifenedig o'r tanwariant ymddangosiadol yng nghyllideb cynllun Tir Mynydd ei ddarparu. Byddai gofyn i'r Gweinidog drafod â'r Gweinidog Cyllid ynghylch defnyddio'r arian a oedd dros ben.

4.3 Holwyd y Gweinidog ynghylch sut yr oedd yr arian a gâi ei adfer o gymorthdaliadau fel cosb yn cael ei gyfrif yn y gyllideb. Nododd y pwyllgor y câi'r pwynt ei wirio a nodyn ei ddarparu.

4.4 Holwyd y Gweinidog ynghylch beth oedd yn cael ei gynnwys o dan y penawdau "Gwasanaethau cymorth amrywiol i anifeiliaid" a "Pwyllgorau, ymholiadau ac ati". Nododd y pwyllgor bod y naill linell gyllideb ar gyfer costau atodol i daliadau difa yn sgil y ddarfodedigaeth a'r llall ar gyfer costau pwyllgorau megis y Pwyllgor Ymgynghori ar Ffermio Mynydd.

4.5 Roedd rhai aelodau'n credu y dylid cysylltu cynllun ymddeol â chymorth i ffermwyr ifanc newydd. Roedd eraill yn anghytuno.

4.6 Croesawyd y £325,000 ar gyfer ymchwil i'r ysfa a holwyd y Gweinidog yng ngofal pwy yr oedd y gyllideb ar gyfer ymchwil a datblygu amaethyddol. Nododd y pwyllgor bod y £325,000 wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaeth genoteipio yn hytrach nag ymchwil. Roedd y gyllideb ymchwil a datblygu amaethyddol yng ngofal DEFRA a châi'r Cynulliad ei gynrychioli ar y Pwyllgor Gwyddoniaeth a reolai'r defnydd ohoni. Nid oedd cyllideb ymchwil ar wahân gan Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad.

4.7 Dywedodd y Cadeirydd y byddai llythyr drafft at y Gweinidog yn cael ei ddosbarthu ymysg

aelodau’r pwyllgor er mwyn iddynt gytuno arno. (Ceir copi o'r llythyr a anfonwyd yn atodiad 2).

*Pwyntiau gweithredu*

4.8 Nodyn i’w ddarparu ynghylch y rhesymau dros y tanwariant ymddangosiadol yng nghyllideb cynllun Tir Mynydd 2000-01. (Ceir copi o'r llythyr a ddarparwyd yn atodiad 3) – **Mike Dunn** (yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio).

4.9 Nodyn i’w ddarparu ynghylch sut y caiff cosbau cymorthdaliadau eu cyfrif yn y gyllideb. (Ceir copi o'r llythyr a ddarparwyd yn atodiad 4) – **Huw Brodie**

**Eitem 5: Cylch gwaith yr adolygiad polisi a’r ymchwiliad i wahardd hela â chwn** – ARD 13-01 (p4)

5.1 Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau ar y cylch gwaith drafft ar gyfer adolygiad y pwyllgor o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu gwledig (TGCh) a’r dull o weithredu a gynigiwyd yn y papur.

5.2 Mynegwyd y farn ei bod yn bwysig peidio ag ailwneud gwaith a oedd yn cael ei wneud ar TGCh mewn meysydd eraill a bod y cylch gwaith yn adlewyrchu hynny. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gwaith a’r dull arfaethedig o weithredu.

5.3 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd amserlen San Steffan ar gyfer ystyried gwahardd hela â chwn yn wybyddus eto. Roedd o’r farn y dylid dechrau ymgynghori yn awr ar effeithiau penodol gwaharddiad yng Nghymru, er mwyn i’r pwyllgor allu ymateb yn gyflym pe bai angen.

5.4 Cytunodd y pwyllgor y dylid cynnal ymarfer ymgynghori fel ag yr argymhellwyd yn y papur. Wedi peth trafod, cytunwyd mai dydd Gwener 16 Tachwedd fyddai’r dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau. Nododd y pwyllgor sylwadau’r Clerc y gallai hynny olygu y byddai amserlen San Steffan yn achub y blaen ar yr ymchwiliad pe bai’r mater yn cael ei drafod yn Nhy’r Cyffredin yn fuan wedi diwedd toriad yr haf.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol** – ARD 12-01(cof)

6.1 Cymeradwyodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2001.

| | |
|---|---|
| **Ysgrifenyddiaeth** | **Gorffennaf 2001** |

---

**Atodiad 1**

**Codi Cyfyngiadau ar ôl Clwy’r Traed a’r Genau**

**Nodyn ar gyfer y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**

1. Ar ôl difa a gwaredu stoc ar fferm heintiedig, gwneir gwaith glanhau a diheintio rhagarweiniol. Fel arfer, caiff hyn ei gwblhau o fewn 24 – 48 awr.
2. Un diwrnod ar hugain wedi’r glanhau a’r diheintio rhagarweiniol, gellir cychwyn cymryd samplau gwaed ar yr holl ffermydd sydd â defaid oddi mewn i’r Ardal Amddiffyn 3 km. Ar y ffermydd hynny, cymerir sampl 95/5 o bob grwp epidemiolegol h.y. pob grwp o ddefaid a gedwir ar wahân. Golyga 95/5 yn ystadegol y gallwn fod 95% yn sicr y byddwn yn darganfod y clwy os yw’n bresennol ar lefel 5% yn y ddiadell. Fel arfer, mae angen hyd at 50 sampl o bob grwp. Os yw canlyniad pob prawf yn negyddol yna, yn gyffredinol, gellir codi’r cyfyngiadau Ffurflen D (oni bai fod problemau eraill yn yr ardal).
3. Ar hyn o bryd, caiff ardal sydd wedi bod yn heintiedig statws ‘Ardal Mewn Perygl’ pan gaiff cyfyngiadau Ffurflen D eu codi. Er mwyn ennill statws ardal ‘Rydd o’r Clwy’ mae angen cynnal profion pellach yn yr Ardal Wyliadwraeth.
4. Yr Ardal Wyliadwraeth yw’r ardal sydd o fewn radiws o 10km i’r Fferm Heintiedig. Cynhelir y profion nesaf felly yn y cylch 3-10 km o amgylch yr Ardal Amddiffyn 3 km.
5. Oddi mewn i’r cylch 3-10km, cynhelir profion ar yr holl ffermydd sydd â defaid. Caiff sampl 95/2 o’r ffermydd hynny eu dewis a chynhelir profion gwaed 95/5 arnynt. Golyga sampl 95/2 yn ystadegol y gallwn fod 95% yn sicr y byddem yn darganfod clwy pe bai’n bodoli ar lefel 2% yn yr ardal. Cynhelir profion ar hyd at 150 fferm. Mae’r sampl 95/5 fel ag yr eglurwyd uchod. Os yw canlyniad pob prawf yn glir, yna caiff yr ardal statws ardal ‘Rydd o’r Clwy’.

---

**Atodiad 2**

Image35.gif (53655 bytes)

**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
**Agriculture and Rural Development Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Carwyn Jones AC
Gweinidog dros Faterion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Gorffennaf 2001

Annwyl Carwyn

**CYLCH CYNLLUNIO'R GYLLIDEB A CHYLCH CYNLLUNIO CORFFORAETHOL 2001**

Ysgrifennodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau at y pwyllgor yn ei wahodd i gyflwyno sylwadau i chi ar y blaenoriaethau ar gyfer gwariant yn ei faes.

Mae'r pwyllgor yn cefnogi'r flaenoriaeth allweddol a glustnodwyd yn *GwellCymru* er mwyn hyrwyddo dyfodol cynaliadwy i amaethyddiaeth a choedwigaeth yng Nghymru mewn economi wledig fodern. I'r perwyl hwn, mae'r pwyllgor yn cefnogi eich ymdrechion i sicrhau cyllid cyfatebol ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a'r Cynllun Datblygu Gwledig i fwrw ymlaen â'r rhaglen fwyd-amaeth a chynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Yn ogystal â hyn, mae aelodau'r pwyllgor yn cytuno y dylai'r canlynol fod yn flaenoriaethau ar gyfer y gyllideb:

- Dylid cynyddu'r cyllid ar gyfer Tir Gofal yn arwyddocaol fel bod mwy o ffermydd yn cael budd ohono. Byddai hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at darged *GwellCymru* sef cynyddu cyfran y tir amaethyddol sy'n cael ei gwmpasu gan gytundeb amaeth-amgylcheddol, neu sydd wedi'i gofrestru fel tir organig neu'n cael ei droi'n dir organig;

- Dylai'r mesurau i gynorthwyo ffermwyr newydd, a roesoch gerbron y pwyllgor yn gynharach eleni[1], gael eu cyllido'n ddigonol.

Roedd rhai aelodau yn credu hefyd y dylid cyllido pecyn cymorth sefydlu i gynorthwyo ffermwyr newydd, ochr yn ochr â chynllun ymddeol. Ond, nid oedd pob aelod o'r pwyllgor yn cefnogi hyn.

Yn gywir

**Glyn Davies**
Cadeirydd

---

[1] papur ar Ffermwyr Newydd a gafodd ei ystyried ar 20 Mehefin 2001 (ARD 11-01(p3))

---

**Atodiad 3**

Nid yw'r cyfieithiad Cymraeg ar gael ar hyn o bryd.

**Action: Note to be provided on the reasons for the apparent under spend on the Tir Mynydd budget in 2000/01**

**Response:** Up until the last financial year, the budget for aid for farmers in less favoured areas was funded by approx. 75% Assembly /Treasury money with 25% European funding paid in arrears the following year. However, as of 2000-2001 and with the introduction of the Tir Mynydd scheme, this funding regime changed.

For 2000-2001 and future years, the breakdown of how the scheme is funded will depend on the figures which were presented to and approved by the European Commission in the Rural Development Plan for Wales. This breakdown approximates to an 86/14% split between UK and EU funds. Furthermore, we are legally restricted to only spending in total the amount stated in the Plan.

Problems arose in that, the payments system set up to pay Tir Mynydd was not updated to take account of these changed circumstances. Instead of basing the UK/EU split on the RDP, the split remained the same as previous years i.e. 75/25%. Consequently, an excess amount of EU funds was drawn down, (approximately £4.7 million). There has been a corresponding under spend on the UK funded Tir Mynydd budget line.

In conclusion, although an under spend on the domestic Tir Mynydd budget is shown for 2000-2001, this is offset by a overspend on EU funding of the scheme and the total Tir Mynydd budget was fully spent. There has been no impact on the sums paid to farmers. Accounting corrections have been completed, with no loss of funding to the Tir Mynydd budget.

---

**Atodiad 4**

Nid yw'r cyfieithiad Cymraeg ar gael ar hyn o bryd.

**Note to be provided on how Subsidy Penalties are accounted for in the Budget**

**Response:** There is a requirement in EC Regulation 1663/95 that monies received from producers in respect of overpayments are correctly accounted for and timely credited to the IB/EC i.e Intervention Board (now Rural Paying Agency) and the European Commission.

Financial Accountability Division (FAD) must return any receipt/recovery that relates to an overpayment made on a pre-funded claim to the IB/EC on a monthly basis. The recording of subsidy penalties or any other overpayment to be recovered is not part of the accounting system until the sum is actually received.

The Finance AS400 computer system is designed to produce a repayment schedule for all items due to the IB/EC. This lists all receipts from producers for each EAGGF (European Agriculture Guarantee and Guidance Fund) scheme and is processed through the AS400 Grants and Subsidies (G&S) system.

The accounting arrangements for recording overpayments/recoveries i.e. subsidy penalties are operated through a range of suspense accounts with the recoveries eventually crediting budget postes (EC equivalent for account codes) to repay the IB/EC. All accounting action occurs through the G&S system, which updates the EC Ledger.